**Adroddiad Ymgynghori**

**Heol y Gogledd / Heol Corbett Diweddaru Llwybr Beicio a Chyfleusterau i Gerddwyr**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y cynllun uchod rhwng 22 Tachwedd 2017 a 13 Rhagfyr 2017.

Daeth deuddeg ymateb i law. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Trac Beicio Heol y Gogledd

**Y broblem:** *Bydd symud y llwybr beicio i'r ffin gyda'r parc yn cynyddu nifer y dail sy'n cronni ar y trac beicio yn ystod yr hydref/gaeaf.*

**Ymateb:** Mae'r trac beicio yn cael ei symud er mwyn cael gwared yn gyfan gwbl ag unrhyw wrthdaro â cherbydau sy'n mynd i mewn ac allan o'r parc. Yn ystod ymweliad diweddar â'r safle nodwyd bod dail yn cwympo ym mhob rhan o'r maes parcio, felly ni fyddai cadw'r trac beicio yn ei safle presennol o reidrwydd yn cael gwared â'r angen i ysgubo. Mae Cyngor Caerdydd wedi rhoi rhaglen cynnal a chadw ar waith yn ystod gaeaf 2017/18 i ysgubo'r prif lwybrau beicio yn rheolaidd. Bydd trac beicio Heol y Gogledd yn cael ei gynnwys ar y rhaglen hon yn y dyfodol.

**Y broblem:** *A roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r draeniau?*

**Ymateb:** Bydd y gwaith o uwchraddio'r draeniau rhwng cyffordd Heol Corbett a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn cael ei gyflawni fel rhan o'r cynllun. I'r gogledd o gyffordd Heol Corbett, mae dŵr ar hyn o bryd yn draenio ar draws y maes parcio ac i'r parc. Mae peirianwyr draeniau wedi dylunio system ddŵr i liniaru'r effaith o osod cwrbyn dyrchafedig yn y lleoliad hwn. Bydd arwyneb y trac beicio yn cael ei ail-lunio i gael gwared â mannau isel a gwastraff er mwyn sicrhau nad yw dŵr yn sefyll. Tîm Draeniau Cyngor Caerdydd fydd yn gwneud y gwaith o gynnal a chadw'r system ddraeniau.

**Y broblem:** *Nid yw'r goleuadau presennol ar Heol y Gogledd yn ddigonol ac mae rhannau o'r maes parcio yn dywyll yn y nos.*

**Ymateb:** Mae'r cynllun yn cynnwys gwella goleuadau stryd a fydd yn sicrhau golau digonol ar gyfer y trac beicio newydd.

**Y broblem:** *Ystyriwch ddefnyddio arwyneb sy'n disgleirio yn y nos ar adrannau heb olau.*

**Ymateb:** Mae'r cynllun yn cynnwys gwella goleuadau stryd a fydd yn sicrhau golau digonol ar gyfer y trac beicio newydd.

**Y broblem:** *Mae'r cynllun yn golygu cael gwared â nifer o goed aeddfed. Ydy hyn oll yn angenrheidiol? Mae'r gwaith ailblannu arfaethedig yn annigonol oherwydd dim ond 1 coeden newydd o bob 4 sy'n goroesi.*

**Ymateb:** O’r 11 o goed y bwriedir cael gwared â nhw fel rhan o'r cynllun, mae'n rhaid cael gwared â 9 ohonynt oherwydd eu bod un ai yn farw, yn afiach, yn fonion, neu'n goeden sydd wedi'i hau yno ei hun gan achosi difrod i'r wal hanesyddol. Mae’r 2 arall yn angenrheidiol ar gyfer bwrw ymlaen â’r cynllun, ond caiff coed arall eu gosod yn eu lle. Nod y cynllun yw darparu 11 o goed yn lle’r coed dan sylw. Mae’r coed newydd yn goed lled aeddfed gyda chynllun cynnal a chadw ar eu cyfer.

**Y broblem:** *Dylid gwneud y trac beicio yn lletach na 3-4m oherwydd y ffens sydd ar un ochr y trac beicio yn unol â Chanllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.*

**Ymateb:** Isafswm lled y trac beicio yw 3m. Mae hyn yn bodloni safonau Canllawiau Dylunio Teithio Llesol sef 2.5m ar y man lleiaf ynghyd ag 0.5m oherwydd y nodwedd fertigol. Mae’r rhan fwyaf o’r trac beicio yn fwy na hyn fodd bynnag, gyda lled o rhwng 3.5m-4m.

**Y broblem:** *Mae’r man parcio i feiciau mewn lleoliad na chaiff ei ddefnyddio.*

**Ymateb:** Bydd lleoliad y man parcio yn cael ei adolygu i sicrhau bod unrhyw gyfleusterau wrth ymyl cyrchfannau.

**Y broblem:** *Dylai’r llwybr beicio a’r droedffordd gael blaenoriaeth dros y mynediad i gerbydau presennol i eiddo.*

**Ymateb:** Bydd y mynediad hwn yn gweithredu ar yr un egwyddor â mynediad i ddreif ar draws troedffordd.

**Y broblem:** *Nid yw’n glir pwy sy'n cael blaenoriaeth wrth y ffordd fynediad i Barc Bute.*

**Ymateb:** Y trac beicio sy’n cael blaenoriaeth wrth y ffodd fynediad i Barc Bute. Mae hyn yn amlwg o’r llinell stopio ar ochr Parc Bute a’r marciau ildio ar ochr Heol y Gogledd. Bydd arwyneb lliw hefyd yn cael ei osod yn y lleoliad hwn i dynnu sylw at bresenoldeb trac beicio ar draws y ffordd fynediad.

**Y broblem:** *Dylid darparu bolardiau parhaol i atal pobl rhag parcio eu ceir ar droedffyrdd.*

**Ymateb:** Mae bolardiau parhaol yn peri rhwystr i droedffyrdd ac felly dim ond pan nad oes unrhyw ddewis olaf y cânt eu gosod. Gellir cymryd camau gorfodi yn erbyn pobl sy’n parcio ar droedffyrdd yn y maes parcio talu ac arddangos.

**Y broblem:** *Dylid rhoi llinell wen yng nghanol trac beicio Heol y Gogledd.*

**Ymateb:** Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i roi llinellau ar ganol y trac beicio. Disgwylir y bydd symudiadau ar hyd y trac beicio yn llanwol, gyda mwy o feicwyr yn teithio tuag at ganol y ddinas yn y bore a mwy yn teithio allan o ganol y ddinas gyda’r hwyr. Bydd peidio â rhoi llinellau yn y canol yn cynyddu capasiti’r trac. Gellid gosod llinellau canol yn ddiweddarach os daw'n amlwg drwy'r trefniadau monitro bod problem yn y lleoliad hwn.

Mynediad at yr Orsaf Ambiwlans

**Y broblem:** *Ni ddylai beicwyr gael blaenoriaeth dros gerbydau modur wrth y fynedfa i'r orsaf ambiwlans oherwydd gwrthdaro rhwng cerbydau brys ac anawsterau i yrwyr, yn enwedig wrth droi i'r dde i Heol y Gogledd. Dylid codi arwyddion rhybudd i'w gwneud yn glir nad beicwyr sy'n cael blaenoriaeth.*

**Ymateb:** Oherwydd prinder cyllid, mae'r cynllun sy'n destun yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben wrth y fynedfa i'r orsaf ambiwlans. Caiff cynllun y trac beicio ar draws y fynedfa i'r orsaf ambiwlans ac i'r llwybr oddi ar y ffordd i Gabalfa ei adolygu fel rhan o gynllun ar wahân i gwblhau'r gwaith o uwchraddio'r llwybr.

**Y broblem:** *Dylai'r ardal rhwng y fynedfa i'r orsaf ambiwlans a man cychwyn y trac oddi ar y ffordd sy'n arwain i Gabalfa fod wedi'i gynnwys yn y cynllun i fynd i'r afael â'r broblem o ansawdd wyneb ffordd gwael, ceir yn peri rhwystr, a'r tro cam rhwng y llwybr beicio uwchraddedig a'r llwybr beicio presennol i Gabalfa.*

**Ymateb:** Oherwydd prinder cyllid, caiff gwelliannau i'r llwybr o'r orsaf ambiwlans i Gabalfa eu cyflawni fel rhan o gynllun ar wahân i gwblhau'r gwaith o uwchraddio'r llwybr.

**Y broblem:** *Dylid gosod cyrbau gwastad rhwng y trac beicio a'r fynedfa i'r orsaf ambiwlans.*

**Ymateb:** Bydd y trac beicio ar yr un lefel â'r ffordd gerbydau, a bydd rhan o'r ffordd fynediad yn cael arwyneb newydd i sicrhau symudiadau llyfn. Ni fydd cyrbau'n angenrheidiol felly.

Cyffordd Heol y Gogledd / Heol Corbett

**Y broblem:** *Nid yw cyffordd Heol y Gogledd a Heol Corbett ar ei newydd wedd yn teimlo fel cyffordd naturiol i alluogi beicwyr deithio'n gyflym ac effeithlon o lwybr beicio Heol y Gogledd i Heol Corbett. Dylid darparu cyfleusterau cyfochrog i gerddwyr/beicwyr wrth y groesfan.*

**Ymateb:** Rhoddwyd ystyriaeth i groesfannau cyfochrog i gerddwyr a beicwyr wrth y gyffordd hon, fodd bynnag, nid oedd modd bwrw ymlaen â hynny am y rhesymau canlynol:

- Er mwyn dileu gwrthdaro gyda cherddwyr sy'n croesi Heol Corbett, byddai'n rhaid rhoi cam ar wahân ar waith wrth yr arwyddion yn ychwanegol i'r golau coch i alluogi cerddwyr groesi. Byddai hynny'n cael effaith sylweddol ar gapasiti'r gyffordd ac yn cynyddu'r amser y byddai'n rhaid i gerddwyr a beicwyr aros am olau gwyrdd i groesi.
- Does dim digon o le i roi man croesi cyfochrog ar waith ar ochr ogleddol Heol Corbett gan fod y fynedfa i Barc Bute mor agos.

**Y broblem:** *Does dim digon o le ar yr ardal ddyrchafedig ar gyfer y man croesi i Heol Corbett i alluogi beicwyr droi i'r dde heb achosi gwrthdaro â cherddwyr. Does dim digon o le i feicwyr aros i groesi Heol Corbett.*

**Ymateb:** Mae croesfannau Twcan i gyd yn 4m o hyd. Mae'r ardal ddyrchafedig ar hyd Heol y Gogledd yn 6m o ddyfnder, ac felly'n cynnig ardal helaeth i feicwyr sy'n troi i'r dde droi i mewn iddi ac i gerddwyr a beicwyr aros i groesi. Caiff y troedffyrdd o amgylch y croesfannau ar Heol Corbett eu lledu i 3m, gan sicrhau digon o lle i bob defnyddiwr aros i groesi. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o feicwyr sy'n defnyddio'r gyffordd yn croesi Heol Corbett i fynd i Heol Corbett neu drac beicio Heol y Gogledd yn hytrach na chroesi Heol Corbett ei hun.

<u>Heol Corbett</u>

**Y broblem:** *Oes modd uwchraddio'r ynys draffig wrth gyffordd Rhodfa'r Brenin Edward VII / Heol Corbett i ddiogelu cerddwyr sy'n croesi'r gyffordd lydan yn well?*

**Ymateb:** Mae'r cynllun wedi'i adolygu i gynnwys uwchraddio'r ynys draffig yn Rhodfa'r Brenin Edward VII.

**Y broblem:** *Ni fydd y lonydd cynghorol arfaethedig ar Heol Corbett yn cynnig diogelwch digonol i feicwyr oherwydd ni fyddant yn atal gyrwyr rhan gyrru neu barcio yn y lonydd beicio. Bydd rhaid i fysus groesi'r lonydd beicio i gael mynediad at y mannau parcio i fysus.*

**Ymateb:** Caiff dyluniad Heol Corbett ei ailystyried yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn enwedig pryderon ynghylch gwrthdaro posib gyda'r bysys wrth iddynt deithio i mewn ac allan o'r mannau parcio i fysus.
Ni fydd y cyfleusterau beicio ar hyd Heol Corbett yn cael eu hadeiladau ar yr un adeg â llwybr beicio Heol y Gogledd a chyfleusterau croesi Heol y Gogledd / Heol Corbett. Bydd hyn yn galluogi'r gwaith o adolygu dyluniad Heol Corbett i sicrhau y darperir cyfleusterau o ansawdd uchel a fydd yn osgoi gwrthdaro gyda'r cyfleusterau parcio i fysus.